



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol y Garnedd
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 1LD**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|-------------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2012

Cyd-destun

Mae Ysgol y Garnedd yn ysgol gymunedol benodedig Gymraeg sy'n gwasanaethu dinas Bangor a phentrefi cyfagos Tal-y-bont a Llandygái, o fewn awdurdod lleol Gwynedd. Disgrifir yr ardal fel un gymharol lewyrchus nad yw o dan anfantais gymdeithasol.

Bellach, mae 344 o ddisgyblion ar y gofrestr wedi eu trefnu'n bedair uned o dri dosbarth yr un. Mae unedau ar gyfer plant meithrin a derbyn, plant Blynyddoedd 1 a 2, Blynyddoedd 3 a 4, a Blynyddoedd 5 a 6.

Ar hyn o bryd mae 46 o ddisgyblion (13%) ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig ac mae gan bedwar disgybl ddatganiad o anghenion addysgol. Addysgir pump o ddisgyblion mewn uned awtistiaeth o fewn yr ysgol.

Daw 67% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg, a siarada tua 95% o'r disgyblion Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth. Mae pump disgybl yn hanu o gefndir ethnig.

Mae 7.6% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Gan gynnwys y pennaeth, mae 11 o athrawon amser llawn yn gweithio yn yr ysgol, ynghyd â phedwar o athrawon rhan amser. Cefnogir nhw gan dîm o 16 o gymorthyddion dosbarth.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Garnedd yn 2012-2013 yw £2,839. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Y Garnedd yn y safle olaf o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

| | |
|---------------------------------------|-----------------|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a da iawn yn eu dysgu;
- medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion o safon uchel;
- mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u dysgu eu hunain;
- ar y cyfan mae asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda gyda chanlyniadau ysgolion y teulu;
- mae disgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol, ac mae eu hymddygiad a'u hymrwymiad i ddysgu yn ardderchog;
- mae athrawon yn cydweithio'n dda i ddatblygu cynlluniau gwaith manwl;
- mae addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda, gyda rhai agweddau rhagorol;
- mae'r ysgol yn rhoi cynhaliath arbennig o dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae gwaith yr uned awtistiaeth yn rhagorol.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- gan yr ysgol hanes o sicrhau cynnydd cyson mewn safonau;
- mae gan y pennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rhannu'n effeithiol iawn gyda'r holl randdeiliaid;
- mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn arbennig o dda;
- mae systemau hunanarfarnu wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys ystod eang o ddata a dadansoddiad cynhwysfawr, ac yn arwain at flaenoriaethau gwella priodol; ac
- mae gweithgorau sydd yn cynnwys staff i gyd, llywodraethwyr a rhieni yn arwain at wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Argymhellion

- A1 Cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.
- A2 Datblygu ymhellach gyfleoedd i ddisgyblion, yn arbennig y disgyblion uwch eu gallu, i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.
- A3 Sicrhau dulliau cyson o safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar draws yr ysgol.
- A4 Sefydlu trefn ysgol gyfan i gynllunio datblygiad bwriadus a strwythuredig y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion Ysgol y Garnedd yn gwneud cynnydd cyson a da iawn yn eu dysgu. Maent yn cyflawni gwaith o safon uchel mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith ar draws yr ysgol. Mae safon gwaith y disgyblion mwyaf galluog yn arbennig o uchel, ac mae ansawdd gwaith y goreuon ym mlwyddyn 6 yn rhagorol.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'u dysgu eu hunain ar draws ystod eang o bynciau. Maent yn medru trafod eu gwaith yn ddeallus ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus iawn ar lafar yn Gymraeg ac, i raddau llai, yn Saesneg. Maent yn sgwrsio'n glir ac yn estynedig am eu gwaith ac yn anffurfiol mewn amrywiol sefyllfaoedd gan ddefnyddio geirfa gynyddol gyfoethog ac amrywiol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen maent yn darllen yn hyderus, ac mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol iawn. Yng nghyfnod allweddol 2 maent yn darllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol a deallus, gan fynegi a chyfiawnhau barn amdanynt.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel mewn Cymraeg a Saesneg. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn daclus a threfnus, ac maent yn llwyddiannus iawn wrth ddefnyddio'u medrau allweddol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.

O fewn y teulu o ysgolion, cyflawnodd yr ysgol gystal neu'n well na'r disgwyl ym mhob maes ac eithrio datblygiad personol a chymdeithasol. O'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn disgyn yn y 50% uchaf mewn datblygiad iaith a dangosydd y Cyfnod Sylfaen, ac yn y 50% isaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

Mewn asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dangosodd yr ysgol gynnydd da yn gyffredinol yn ystod y tair blynedd diwethaf ac eithrio mewn Saesneg yn 2012. Mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu'n uwch yn 2012 yn uwch na'r disgwyl o fewn y teulu ym mhob pwnc ac eithrio Saesneg, ac yn arbennig mewn darllen ac ysgrifennu.

O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn yr 50% uchaf ym mhob pwnc ac eithrio Saesneg a gwyddoniaeth, sydd yn y 50% isaf.

Mewn asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6+) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd ac mewn datblygiad mathemategol, ond yn is na'r cyfartaledd mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Ac eithrio mewn Cymraeg, nid yw'r ysgol yn cyflawni yn ôl y disgwyl o fewn y teulu o ysgolion ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2(lefel 5+), er bod y canlyniadau'n yn dueddol o fod yn uwch na'r cyfartaledd teuluol a chenedlaethol.

Nid oes patrwm o dangyflawni gan fechgyn dros amser, er bod merched wedi cyflawni'n uwch na'r bechgyn ym mhob pwnc yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, ac yn arbennig mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ac yn llwyddo i gyrraedd y targedau a osodir ar eu cyfer. Mae disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, a'r ychydig sy'n hanu o gefndir ethnig, yn llwyddo i'r un graddau â gweddill disgyblion yr ysgol.

Lles: Da

Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd ac egwyddorion materion iechyd, ffitrwydd a bywyd iach ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n hybu'r agweddau hyn.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol, ac ym mhob sefyllfa, yn rhagorol. Maent yn gwrtais â'i gilydd ac wrth oedolion yn yr ysgol, ac yn dangos hunan-ddisgyblaeth gref wrth symud o gwmpas yr ysgol.

Mae presenoldeb yr ysgol o gwmpas 95%, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau sy'n dylanwadu'n amlwg ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cynllunio rhaglen waith lwyddiannus yn flynyddol, ac yn rhoi cyflwyniad rheolaidd am eu gweithgareddau i'r corff llywodraethol.

Cydweithia'r Grŵp Gwyrdd yn agos gyda chymdeithasau eraill yn y gymuned er mwyn gwella amgylchfyd Bangor. Mae bron pob disgybl yn dangos gofal a pharch am eraill ac mae ganddynt y medrau cymdeithasol angenrheidiol i gydweithio'n effeithiol gydag eraill.

Datblygant eu medrau meddwl yn effeithiol, fel y gallant symud ymlaen yn hyderus i'r cam nesaf yn eu dysgu.

| |
|--|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? |
|--|

| |
|-----------|
| Da |
|-----------|

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Defnyddir themâu gyda phwyslais lleol yn effeithiol i gyflwyno nifer o agweddau'r cwricwlwm. Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwiadus o fewn adrannau i gynllunio rhaglenni gwaith manwl. Mae ymweliadau addysgol a

chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae gwirfoddolwyr darllen yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau darllen, ac yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

Mae cyfleoedd da i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm o fewn cynlluniau gwaith yr adrannau, ond nid oes cynllunio digon bwriadus ar lefel ysgol gyfan i sicrhau dilyniant a chynnydd yn y medrau hyn. Rhoddir sylw da i fedrau datrys problemau a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y dimensiwn Gymreig rôl ganolog yn yr ysgol. Darperir amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatliadau, hanes a diwylliant Cymru. Mae'r athrawon yn hyrwyddo hanes, daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth Cymru yn dda iawn. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n flynyddol yn yr eisteddfod ysgol ac yn Eisteddfod yr Urdd ac mae hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg am gynaliadwyedd yn effeithiol drwy weithgareddau ymarferol y disgyblion, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys digon o brofiadau uniongyrchol i ddisgyblion.

Addysgu: Da

Mae'r addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol gyda rhai agweddau rhagorol. Mae gan yr athrawon ac oedolion eraill wybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion.

Mae'r holl athrawon wedi sefydlu perthynas waith dda iawn â'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol y staff addysgu a'r cymorthyddion yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn y dosbarthiadau. Mae'r oedolion o fewn y dosbarthiadau yn gosod patrwm ieithyddol raenus sy'n dylanwadu ar loywi iaith lafar y disgyblion.

Lle mae'r addysgu ar ei orau mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn holi a chwestiynu'n dreiddgar i annog ymatebion, ymestyn dealltwriaeth disgyblion a hyrwyddo annibyniaeth. Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau yn hybu annibyniaeth disgyblion yn ddigonol yn arbennig y rhai mwyaf galluog.

Mae agweddau da i gyfundrefnau asesu a monitro'r ysgol er nad yw'r asesiadau diwedd cyfnod allweddol bob amser yn adlewyrchu safonau gwaith disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n ofalus gyda sylwadau adeiladol. Yn yr arfer orau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd ac mae disgyblion yn gosod eu targedau eu hunain gyda chymorth yr athrawon. Mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol i helpu disgyblion i wella eu dysgu eu hunain a chydweithio'n dda ag eraill. Mae adroddiadau blynyddol ar gyfer rhieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd y disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae Ysgol y Garnedd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Mae'n ysgol ofalgar sy'n manteisio ar bob cyfle i roi cefnogaeth fugeiliol o safon uchel.

Defnyddir arbenigrwydd ystod eang o wasanaethau yn effeithiol er mwyn cynnal iechyd personol a chymdeithasol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae sesiynau ymarferol sy'n defnyddio pypedau yn yr uned dan bump yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn rhagorol. Mae amser cylch wythnosol ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu eu gallu i drafod agweddau personol a chymdeithasol yn hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Yn greiddiol i hyn mae'r uned anghenion dysgu ychwanegol a'r Uned Awtistiaeth. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion sy'n tangyflawni, neu sydd angen cynhaliath. Trefnir ymyrraeth gynnar sydd yn sicrhau cefnogaeth briodol i ddisgyblion. Mae'r berthynas rhwng y cymorthyddion yn yr unedau a'r athrawon dosbarth yn dda iawn. Maent yn cydweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i sicrhau bod gan y disgyblion gynllun addysg unigol cyfredol sy'n eu galluogi i gyflawni i safon dda.

Mae'r staff, a'r gefnogaeth gan asiantaethau allanol, yn sicrhau bod yr addysg a ddarperir ar gyfer y pedwar disgybl yn yr uned awtistiaeth yn ardderchog. Mae eu hadnabyddiaeth drylwyr o'r disgyblion, y gwaith cydweithredol a'r systemau effeithiol iawn yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr. Mae'r disgyblion sy'n cael eu hintegreiddio i'r brif ffrwd yn cael cymorth da iawn a chaiff eu hanghenion eu bodloni'n dda. Mae'r ddarpariaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o ragoriaethau'r ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu awyrgylch cartrefol a hapus. Mae gan oedolion sy'n gweithio yn yr ysgol ddisgwyliadau uchel iawn o ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion. Mae hybu cydraddoldeb a chyfle cyfartal yn amlwg iawn yn y profiadau dysgu. Mae gan bob disgybl hygyrchedd cyfartal i'r cwricwlwm ac mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn agored i bob disgybl yng nghyfnod allweddol 2.

Er bod ystafelloedd yn yr adeilad yn gyfyng iawn i niferoedd y disgyblion, mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r safle drwy drefniadaeth ofalus a disgyblaeth dda'r disgyblion. Mae adnoddau priodol ym mhob maes i hyrwyddo dysgu ac addysgu.

Mae'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn ddeniadol gydag arddangosfeydd lliwgar sy'n cynnwys enghreifftiau niferus o waith disgyblion, ac sy'n ysgogi disgyblion i ddysgu. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda.

Mae adnoddau priodol ym mhob maes i hyrwyddo dysgu ac addysgu.

| | |
|--|-----------------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|--|-----------------|

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol. Mae ei arweinyddiaeth gadarn yn sicrhau bod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cael

dylanwad clir a phositif ar safonau disgyblion. O dan arweinyddiaeth yr uwch dim reoli mae'r staff ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r uwch dim reoli yn arwain nifer o weithgorau effeithiol a llwyddiannus yn flynyddol.

Mae'r corff llywodraethol yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn darparu cefnogaeth effeithiol iawn. Mae'r llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data a'r adroddiad hunanarfarnu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella ymhellach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn datblygu arbenigedd mewn pynciau drwy gwrdd ag arweinwyr pwnc i gytuno ar y cyfeiriad ar gyfer gwella'r ysgol. Mae hyn yn codi eu ymwybyddiaeth o safonau ac yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion trefniadol. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu eu gallu i ddarparu her briodol i'r ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae mentrau cenedlaethol megis y Strategaeth Llythrennedd a'r Strategaeth Rhifedd yn rhan annatod o weithgareddau'r ysgol o dydd i ddydd. Mae'r ysgol wedi ymateb yn rhagorol i ofynion ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae yna ddiwylliant cryf iawn o adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant ac mae hyn yn ganolog i ethos yr ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda iawn ac yn cynnwys staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn y broses arfarnu.

Mae arweinwyr pwnc yn darparu arfarniadau trylwyr yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad effeithiol o ddata perfformiad, craffu ar waith disgyblion a chynnal arsylwadau o'r addysgu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddarlun cywir o gryfderau ac agweddau penodol i'w datblygu ymhellach.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant realistig ynghyd â therfynau amser ar gyfer cyflawni targedau. Mae gweithgorau yn cael eu ffurfio yn flynyddol er mwyn ymateb i flaenoriaethu'r cynllun datblygu ysgol ac maent yn cynnwys nifer o randdeiliaid. Mae rhain yn cael eu sefydlu er mwyn ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu ac maent yn rhoi ffocws a chyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol. Mae gwaith a threfniadaeth y gweithgorau hyn yn rhagorol gan eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar wella darpariaeth a chodi safonau.

Yn sgil yr arfarniadau manwl hyn, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gweithio mewn partneriaeth yn cyfrannu'n helaeth at wella safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni er mwyn cefnogi'r dysgu a rhoi gwybodaeth gyson iddynt am gynnydd eu plant. Cydweithia'r gymdeithas rieni ac athrawon yn effeithiol gyda'r llywodraethwyr i ariannu gwelliannau i amgylchfyd yr ysgol megis y maes antur.

Mae'r ysgol yn elwa'n fawr o'r bartneriaeth rhwng dosbarth meithrin y Cyfnod Sylfaen, y cylch meithrin a Chlwb y Garnedd ar safle'r ysgol sy'n sicrhau darpariaeth amser llawn i ddisgyblion tair oed. Mae'r bartneriaeth gydag adran seicoleg Prifysgol Bangor i gynllunio rhaglen waith lwyddiannus ar gyfer yr uned awtistiaeth yn rhagoriaeth.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yr ardal i safoni lefelau gwaith ac i gynnal sesiynau hyfforddiant mewn swydd. Mae ganddi gysylltiadau da gyda'r gymuned leol drwy gynnal gwasanaethau a chyngerdau, ac mae'r ysgol yn cynllunio rhaglen symbylus o ymweliadau ac ymwelwyr. Defnyddia'r ysgol ystod o wasanaethau'r Awdurdod Addysg yn effeithiol er lles y disgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus. Lleolir y staff mewn unedau dysgu effeithiol a bywiog. Mae cynllunio ar y cyd a sesiynau asesu o fewn yr unedau yn sicrhau lefelau uchel o gysondeb. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd er bod angen ffurfioli rôl rheolwr llinell yr uned awtistiaeth.

Mae ymrwymiad blaenllaw staff mewn nifer o gymunedau dysgu yn ffordd effeithiol iawn o ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae penderfyniadau gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn monitro gwariant yn fanwl ac yn defnyddio dulliau rhagweithiol er mwyn sicrhau gwelliant.

Ysgol Y Garnedd sydd â'r gyllideb isaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd yr awdurdod lleol. O ystyried hynny, a gan fod y disgyblion yn cyflawni safonau uchel yn ystod y gwersi ac yn eu llyfrau gwaith, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mewn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5+) cyflawnodd yr ysgol yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob maes asesu. O fewn y teulu o ysgolion, cyflawnodd yr ysgol yn uwch na'r disgwyl mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen (sef pob maes asesu gyda'i gilydd). Mewn datblygiad mathemategol maent yn cyflawni yn ôl y disgwyl o fewn y teulu, ac yn is na'r disgwyl mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

O'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn disgyn yn y 50% uchaf mewn datblygiad iaith a dangosydd y Cyfnod Sylfaen, ac yn y 50% isaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

Mewn asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dangosodd yr ysgol gynnydd da yn gyffredinol yn ystod y tair blynedd diwethaf ac eithrio mewn Saesneg yn 2012. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu'n uwch yn 2012 yn uwch na'r disgwyl o fewn y teulu o ysgolion mewn Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd (sef y pynciau gyda'i gilydd), ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Mae perfformiad Saesneg yn is na'r disgwyl o fewn y teulu, yn arbennig mewn darllen ac ysgrifennu, ond yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn yr 50% uchaf mewn Cymraeg, mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd, ac yn y 50% isaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Mewn asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6+) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd ac mewn datblygiad mathemategol, ond yn is na'r cyfartaledd mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Ac eithrio mewn Cymraeg, nid yw'r ysgol yn cyflawni cystal â'r disgwyl o fewn y teulu o ysgolion ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2(lefel 5+), er bod y canlyniadau'n yn dueddol o fod yn uwch na'r cyfartaledd teuluol a chenedlaethol.

Er bod merched wedi cyflawni'n uwch na'r bechgyn ym mhob pwnc yn 2012, yn arbennig mewn Cymraeg a Saesneg, nid oes patrwm o dangyflawni gan fechgyn dros gyfnod.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Parent Questionnaire / Arolwg Rhieni

Ysgol Y Garnedd

denotes the benchmark - this is a total of all the responses received to date from parents of pupils in primary schools inspected since September 2010.

| | Nifer o ymatebion Number of responses | Nifer o ymatebion / Number of responses | | | | | Don't know Ddim yn gwybod | |
|--|--|---|-----------------|-----------------------|---------------------------------------|----|---|--|
| | | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | | | |
| Overall I am satisfied with the school. | 59 | 41 69% | 17 29% | 0 0% | 1 2% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | | |
| My child likes this school. | 60 | 48 81% | 11 19% | 0 0% | 0 0% | 1 | Mae fy mhientyn yn hoffi'r ysgol hon. | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 58 | 47 82% | 9 16% | 1 2% | 0 0% | 1 | Cafodd fy mhientyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | | |
| My child is making good progress at school. | 59 | 36 63% | 20 35% | 1 2% | 0 0% | 2 | Mae fy mhientyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. | |
| | | 61% | 35% | 3% | 0% | | | |
| Pupils behave well in school. | 59 | 32 59% | 21 39% | 1 2% | 0 0% | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | | |
| Teaching is good. | 60 | 36 64% | 20 36% | 0 0% | 0 0% | 4 | Mae'r addysgu yn dda. | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 60 | 36 63% | 21 37% | 0 0% | 0 0% | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhientyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. | |
| | | 64% | 35% | 1% | 0% | | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 57 | 23 43% | 27 51% | 2 4% | 1 2% | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhientyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. | |
| | | 50% | 43% | 6% | 2% | | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 59 | 37 66% | 17 30% | 1 2% | 1 2% | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 59 | 41 71% | 16 28% | 1 2% | 0 0% | 1 | Caiff fy mhientyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | | |
| My child is safe at school. | 60 | 38 64% | 18 31% | 2 3% | 1 2% | 1 | Mae fy mhientyn yn ddiogel yn yr ysgol. | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 52 | 24 52% | 19 41% | 3 7% | 0 0% | 6 | Mae fy mhientyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 59 | 30 52% | 22 38% | 6 10% | 0 0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhientyn. | |
| | | 49% | 41% | 8% | 1% | | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 60 | 28 47% | 25 42% | 6 10% | 1 2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. | |
| | | 62% | 32% | 4% | 2% | | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 60 | 22 39% | 27 48% | 7 13% | 0 0% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. | |
| | | 47% | 43% | 8% | 2% | | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 59 | 35 61% | 22 39% | 0 0% | 0 0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhientyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoleb. | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 54 | 22 63% | 11 31% | 2 6% | 0 0% | 19 | Mae fy mhientyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. | |
| | | 51% | 42% | 5% | 1% | | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 60 | 41 71% | 16 28% | 1 2% | 0 0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. | |
| | | 55% | 39% | 5% | 1% | | | |
| The school is well run. | 60 | 40 69% | 16 28% | 1 2% | 1 2% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. | |
| | | 62% | 33% | 3% | 1% | | | |

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Learner Questionnaire / Arolwg Disgyblion

All Pupils / Pob Disgybl

Ysgol Y Gamedd

denotes the benchmark - this is a total of all the responses received to date from pupils in primary schools inspected since September 2010.

| | Nifer o ymatebion Number of responses | Nifer o ymatebion / Number of responses | | |
|---|--|---|-----------------------|--|
| | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
| I feel safe in my school. | 158 | 154 97% | 4 3% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 158 | 139 88% | 19 12% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 158 | 148 94% | 10 6% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag efi/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 158 | 153 97% | 5 3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 159 | 150 94% | 9 6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 156 | 150 96% | 6 4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 157 | 154 98% | 3 2% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 158 | 151 96% | 7 4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 156 | 133 85% | 23 15% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 157 | 148 94% | 9 6% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 152 | 123 81% | 29 19% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 152 | 129 85% | 23 15% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 83% | 17% | |

Atodiad 3

Y tîm arolygu

| | |
|-----------------|-----------------------|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Iorylle Aubrey | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gareth Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elfed Williams | Enwebai'r Ysgol |

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|-----------|-----|------|------|-----|-----|------|-------|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|--------------------|--|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.